GUESTLINK·CYMRU

ONLINE TOURISM BUSINESS SOLUTIONS FOR WALES

# Sut alla i ddiweddaru manylion fy eiddo yn Guestlink?

**Trosolwg:** Mae Guestlink yn eich galluogi i ddiweddaru eich manylion cyswllt a manylion eich eiddo. Gellir newid rhai manylion ar unwaith, ond bydd rhai newidiadau eraill yn cael eu hanfon at eich stiward data i'w cymeradwyo.

**Cam 1:** Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i Guestlink cliciwch ar **Update** ar y brif ddewislen ac yna clicio ar **Details** o'r is-ddewislen isod:




**Cam 2:** Yn ddiofyn, bydd y dudalen fanylion yn dangos eich manylion cyswllt. Cofiwch bod eich Stiward Data a Desg Gymorth Guestlink yn defnyddio eich manylion cyswllt. Ac eithrio eich rhif archebu, nid yw'r manylion cyswllt hyn yn cael eu cyhoeddi i wefannau.

I weld eich manylion eiddo, cliciwch ar y gwymplen islaw'r eicon ty a dewiswch eich eiddo.

**Step 3:** Mae'r **Datganiad** ar ben yr adran manylion. Dylech edrych ar y datganiad ticio'r blwch **Agree to Declaration**, rhoi eich enw fel llofnod digidol ac ychwanegu unrhyw **Comments for Approve**r yn ôl y gofyn. Mae'n rhaid i chi gytuno â'r datganiad cyn newid unrhyw beth ar y dudalen a chlicio Confirm:



**Cam 4:** Nid oes yn rhaid cael cymeradwyaeth i'r meysydd gyda symbol U a bydd y rhain yn newid gynted ag y byddwch wedi clicio Confirm. Bydd yn rhaid cael cymeradwyaeth eich Stiward Data ar gyfer y meysydd gydag A cyn y byddant yn dod yn fyw. Rhestrir eich Stiward Data ar dudalen groeso Guestlink.

Bydd C yn cael ei ychwanegu at newidiadau sy'n disgwyl cael eu cymeradwyo. Unwaith y bydd y newidiadau wedi'u cymeradwyo bydd neges yn cael ei dangos ar eich tudalen mewngofnodi ar ben y dudalen manylion.

Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd yn hunan eglurhaol. Fodd bynnag, cofiwch:

- Dylai **Cyfeiriadau Grid Cenedlaethol** fod ar ffurf 6 rhif ac fe'u cynhyrchir yn ddiofyn o'ch côd post.
- Mae gofyn cael **Long Description of Property** a **Short Description of Property** gan fod faint o le sydd ar wefannau'n gallu gwahaniaethu yn dibynnu ar y dyluniad a'r ddyfais (e.e. symudol). Rydym yn eich annog i wneud y disgrifiadau hyn yn wahanol.
- Rydym yn annog rhannu **Directions** i **By Road**: a **By Public Transport**: er mwyn i wefannau edrych yn debyg.

Dyma enghraifft o rai o'r meysydd sydd ar gael a'r symbolau cymeradwyo:




**Cam 5:** I newid manylion room neu unit (a elwir yn product ar system Guestlink) cliciwch ar enw'r cynnyrch priodol ar ochr dde eich tudalen eiddo. Cofiwch na allwch ychwanegu cynnyrch newydd ar hyn o bryd felly cysylltwch â'ch Stiward Data sydd wedi'i restru ar eich tudalen groeso Guestlink yn ôl y gofyn.







**Noder:** Ar ôl gwneud newidiadau cofiwch glicio'r botwm Confirm ac yna ddarllen y neges gadarnhau.